Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

marchnata
marketing

# Strategaeth Marchnata Pren
# Timber Marketing Strategy









Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Ebrill 2011 tan 31 Mawrth 2016. Mae'n disodli'r strategaeth marchnata pren flaenorol a fu'n rhedeg o 2006 tan 2011. Bydd unrhyw newidiadau i'r strategaeth hon cyn 2016 yn cael eu trafod gyda UKFPA[1] a CONFOR[2]. Bydd y strategaeth hon yn cael ei chyhoeddi ar dudalennau Cymru gwefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC), ac mewn nifer cyfyngedig o argraffiadau papur.

## Adnodd Pren Coetiroedd Llywodraeth y Cynulliad

Ysgrifennwyd y strategaeth hon gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC). Ynddi, rydym yn nodi sut y byddwn yn ymdrin â gwerthiant pren sy'n codi o'n rheolaeth ar Ystâd Coetiroedd Llywodraeth y Cynulliad (yr Ystâd). Rydym yn rheoli'r ystâd hon gyda'r amcan o helpu cyflwyno strategaeth coetiroedd Llywodraeth y Cynulliad, sef *Coetiroedd i Gymru*. Mae *Coetiroedd i Gymru* yn nodi nifer o ganlyniadau ac mae gwerthiant pren yn arbennig o berthnasol i gyflwyno rhai o'r rhain.

Wrth reoli'r Ystâd, rydym yn dilyn yr egwyddorion rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy a ddisgrifir yn Safon Ansawdd Coetiroedd y DU, ac mae ein rheolaeth yn cael ei hardystio gan archwilwyr trydydd parti. Mae'n rhaid i weithgareddau cynaeafu pren ar yr Ystâd gydymffurfio â gofynion Cynllun Ansawdd Coetiroedd y DU (UKWAS) a chefnogi rheolaeth gynaliadwy ehangach a'r amcanion polisi a ddisgrifir yng *Nghoetiroedd i Gymru*. Mae hyn yn cynnwys mwy o ddefnydd o ddewisiadau eraill ar wahân i gwympglirio, adfer coetiroedd gyda nodweddion arbennig a chefnogi canlyniadau cadwraeth, hamdden a chymdeithasol. Mae gweithgarwch cynaeafu pren ar yr Ystâd yn rhan annatod o gyflwyno'r canlyniadau hyn.

Y canlynol yw rhai o ganlyniadau *Coetiroedd i Gymru* sy'n berthnasol i'n Strategaeth Marchnata Pren:

- sector coedwigaeth cystadleuol ac annatod, gyda gweithlu ffyniannus a medrus sy'n ategu economi Cymru
- cynnal cynhyrchu pren, ar y lefelau cyfredol o'r Ystâd yn y tymor byr i'r tymor canolig
- mae mwy o bobl yn elwa o fentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd, ac mae mwy o bobl yn gweithredu busnesau, yn datblygu sgiliau ac yn creu swyddi mewn mentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd a phren. Mae CC yn dymuno sicrhau bod cyfleoedd i fentrau newydd ddatblygu a chystadlu am nwyddau pren
- bod mwy o bren a dyfir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru, a bod coetiroedd Cymru yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon Cymru

Mae *Coetiroedd i Gymru* yn cydnabod y buddion y gall annog mwy o ddefnydd o bren ei gael ar leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

- Mae cynhyrchion pren sy'n dod o'r ystâd a reolir yn gynaliadwy yn cael ei hystyried i bron â bod yn garbon niwtral
- mae defnyddio cynhyrchion pren yn hytrach na defnyddiau a wnaed gan ddefnyddio llawer iawn o ynni (o danwydd ffosil), yn gostwng allyriadau nwy tŷ gwydr



- mae hefyd yn bosibl dadleoli tanwydd ffosil yn uniongyrchol trwy ddefnyddio pren fel tanwydd, er mae'n well yn gyffredinol os gellir ei ddefnyddio at ddibenion eraill yn gyntaf ac yna cael ei losgi ar ddiwedd ei oes. Mae ychydig o ddefnydd pren nad oes ganddo'r potensial am ddefnydd gwerth uwch ac sy'n addas i'w ddefnyddio fel tanwydd pren

Mae'r rhain yn awgrymu "hierarchaeth defnydd" ffafriol ar gyfer pren, a fyddai'n gallu lleihau allyriadau carbon a hyrwyddo ychwanegu gwerth. Ein nod yw gweithio gyda'r diwydiant coedwigaeth i annog pren a gynaeafir o'r Ystâd i'r safle mwyaf yn yr hierarchaeth garbon hon, y mae'n addas ar ei chyfer. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, er mwyn gwneud hyn a hyrwyddo datblygu diwydiant cystadleuol ac integredig, bod yn rhaid i ni weithio o fewn y farchnad a gyda'n cwsmeriaid i fynd i'r afael â'r rhwystrau i gyflawni hyn a sicrhau cystadleuaeth deg ac agored bob amser.

Nid yw'n gweithgareddau marchnata pren yn cydnabod ffin galed ar ffin Cymru gan ein bod ni'n credu bod gweithgareddau ein cwsmeriaid yn Lloegr hefyd yn creu buddion yng Nghymru, a bod hyn yn gyson â'n cyfrifoldebau o dan y cyfansoddiad Ewropeaidd i drin Ewrop gyfan fel marchnad sengl. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cymorth penodol ar gyfer cwmnïau coedwigaeth Cymru, fel y mae llywodraeth Lloegr yn ei wneud ar gyfer cwmnïau yn Lloegr.

Er bod yr ynni a ddefnyddir wrth gludo pren yn llawer llai arwyddocaol o ran allyriadau carbon na'r ffordd y mae'n cael ei brosesu a'i ddefnyddio, mae cludiant pren yn parhau i fod yn elfen bwysig yn y gadwyn gyflenwi. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant a Grŵp Cludo Coed Cymru i geisio gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd cludo pren. Yn benodol, ein bwriad yw lleihau aflonyddwch i gymunedau arbennig ble mae cludiant yn broblem wirioneddol a lleihau effaith lorïau pren ar ffyrdd cyhoeddus ac yn y coedwigoedd.

[1] UKFPA yw Cymdeithas Cynhyrchion Coedwig y DU, sy'n cynrychioli melinyddion llifo a defnyddwyr pren, gan gynnwys rhai gweithgynhyrchwyr paneli pren yng Nghymru.

[2] CONFOR yw Conffederasiwn Diwydiannau Coedwig y DU sy'n cynrychioli tyfwyr pren yn ogystal â defnyddwyr pren.

## Introduction

This strategy covers the period 1 April 2011 to 31 March 2016. It replaces the previous timber marketing strategy which ran from 2006 to 2011. Any changes to this strategy before 2016 will be discussed with UKFPA[1] and CONFOR[2]. The strategy will be published on the Wales pages of the Forestry Commission Wales (FCW) website and in limited hard copy editions.

## The Assembly Government Woodland Timber Resource

This strategy has been written by Forestry Commission Wales (FCW). In it we set out how we will deal with the sale of timber arising from our management of the Welsh Assembly Government's Woodland Estate (the Estate). We manage this estate with the objective of helping to deliver the Assembly Government's woodland strategy, *Woodlands for Wales*. *Woodlands for Wales* sets out a number of outcomes and the sale of timber is particularly relevant to the delivery of some of these.

In our management of the Estate, we follow the principles of sustainable forest management set out in the UK Woodland Assurance Standard (UKWAS), and our management is certified by third party auditors. Timber harvesting activities on the Estate must comply with the requirements of UKWAS and support the wider sustainable management and policy objectives described in *Woodlands for Wales*. This includes greater use of alternatives to clearfell, restoration of woodland with special characteristics and supporting conservation, recreation and social outcomes. Timber harvesting activity on the Estate is highly integrated into the delivery of these outcomes.

Some of the *Woodlands for Wales* outcomes that are relevant to our Timber Marketing Strategy are the following;

- a competitive and integrated forest sector, with a thriving and skilled workforce supporting the Welsh economy
- to maintain at current levels, production of timber from the Estate in the short to medium term
- more people benefit from woodland related enterprises, and that more people operate businesses, develop skills and create jobs in enterprises associated with woodland and timber. FC wishes to ensure that there are opportunities for new enterprises to develop and compete for timber supplies
- that more Welsh-grown timber is used in Wales, and that Welsh woodlands contribute to reducing the carbon footprint of Wales

*Woodlands for Wales* recognises the benefits that encouraging greater use of timber can have in reducing greenhouse gas emissions.

- Timber products which are sourced from the sustainably managed Estate are considered to be near carbon neutral
- using timber products instead of materials made using large amounts of energy, (from fossil fuels,) reduces greenhouse gas emissions
- it is also possible to displace fossil fuels directly by using timber as a fuel, although it is better overall if it can be used for other purposes first and then burnt at the end of its life. There is some woody material that does not have the potential for higher value end uses and which is well suited for use as wood fuel

These benefits point towards a preferred "hierarchy of use" for timber that could minimize carbon emissions and promote value adding. Our aim is to work with the forest industry to encourage timber harvested from the Estate into the highest position in this carbon hierarchy for which it is suitable. However we recognise that in order to do so, and promote the development of a competitive and integrated industry, we must work within the market and with our customers to address the barriers to achieving this and to always ensure fair and open competition.

Our timber marketing activities do not recognise a hard boundary at the Welsh border since we believe that the activities of our English customers also create benefits in Wales and that this is consistent with our responsibilities under the European constitution to treat all of Europe as a single market. However the Assembly Government provides specific support to Welsh forestry companies, as the English government does for companies based in England.

Although the energy used in transporting timber is much less significant in terms of carbon emissions than the way it is processed and utilised, timber transport is still an important element in the supply chain. We will work with the industry and the Timber Transport Group in Wales to seek improvements in the efficiency and sustainability of timber transport. In particular we aim to reduce disturbance to particular communities where haulage is a real problem and to reduce the impact of timber lorries on forest and public roads.



[1] UKFPA is the United Kingdom Forest Products Association, representing saw millers and timber users, including some wood panel manufacturers in Wales.

[2] "CONFOR is the Confederation of Forest Industries which represents forest nurseries, timber growers, contractors and timber users.

## Ein hamcanion marchnata

Ar sail y canlyniadau a ddymunir yng *Nghoetiroedd i Gymru*, ein hamcanion marchnata o ran gwerthu pren yw:

- **Sicrhau'r gwerth gorau o werthiant pren, trwy ei werthu mewn ffordd deg, agored a thryloyw**
- **Cynnig pren i'r farchnad mewn ffyrdd sy'n caniatáu'r nifer ymarferol mwyaf o gwsmeriaid i gystadlu amdano ac mewn ffyrdd sy'n cydnabod anghenion busnes ein cwsmeriaid a'u galluogi nhw i ychwanegu'r gwerth mwyaf posibl ato**
- **Cynnig pren mewn ffyrdd sy'n cynorthwyo buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi gyfan, o gynaeafu i brosesu, ac sy'n canolbwyntio ar feysydd lle mae'r gadwyn gyflenwi yn wannach**
- **Cynnig pren mewn ffyrdd sy'n annog ei ddefnyddio yn y ffordd orau i helpu Cymru i leihau ei hôl troed carbon**

## Lefelau cynhyrchu pren 2011 - 2016

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth ar lefel Prydain Fawr yn cyhoeddi rhagwelediad o argaeledd pren ar gyfer yr ystâd goedwigaeth gyhoeddus ac ar gyfer coetiroedd preifat bob pum mlynedd. Disgwylir i'r cyhoeddiad nesaf gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2011 yn unol â'r Siarter Cwsmeriaid Pren. Bydd y rhagwelediad newydd hwn yn mynegi'r lefel debygol o gynhyrchu pren ym mhob gwlad ym Mhrydain Fawr, ac yn gosod y cyd-destun ar gyfer ein gweithgarwch marchnata yng Nghymru.

Yng Nghymru, mae ein lefel cynhyrchu pren yn cael ei gosod yn ein cynlluniau corfforaethol a busnes. Mae'r rhain yn ystyried y rhagwelediad cyffredinol, a ffactorau eraill hefyd.

Ein nod yw dod â symiau cyfartalog o bren i'r farchnad, fel y dangosir yn **Nhabl 1**, ac o fewn hyn, cynnig y swm o foncyffion a barrau a ddangosir.

Gan ddibynnu ar alw'r farchnad, gall y swm gwirioneddol a gaiff ei gynaeafu a'i gyflenwi fod yn fwy neu'n llai mewn unrhyw flwyddyn.



## Ardystiad

Byddwn yn parhau i werthu ein pren gydag ardystiad deuol yn seiliedig ar *Safon Ansawdd Coetiroedd y DU*. Er 2001, mae logo'r FSC4, sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol, wedi bod ar ein pren. Yn 2009, penderfynom, mewn ymateb i geisiadau cwsmeriaid, ehangu hyn a chofrestru gyda PEFC5 hefyd. Mae'r ddau gynllun ardystio annibynnol hyn yn cael eu cydnabod yn eang ac mae ymgynghorwyr llywodraeth y DU, CPET6, yn derbyn eu bod yn darparu tystiolaeth lawn bod y pren sydd wedi cael ei ardystio yn dod yn gyfreithlon o goedwigoedd a reolir yn gynaliadwy.

## Biomas

Mae datblygiad marchnadoedd biomas wedi darparu galw a groesawir am ddeunyddiau coediog gradd isel sy'n rhoi incwm ychwanegol i berchnogion coetiroedd a chyfle i goetiroedd gyfrannu at y genhedlaeth o ynni adnewyddadwy. Mae CCC yn croesawu'r cyfleoedd hyn a bydd yn parhau i gynorthwyo â sefydlu'r farchnad biomas ochr yn ochr ag elfennau o'r sector prosesu pren sy'n creu cynhyrchion pren sydd â gwerthoedd amnewid carbon uwch nag ynni pren, ac sy'n cyflawni gwerth uwch.

Mae hyn yn golygu;

- Pan fyddwn yn gwerthu pren wrth ochr y ffordd, byddwn yn parhau i raddio cynnyrch i fod yn addas ar gyfer marchnadoedd gwahanol ac annog ychwanegu'r gwerth mwyaf at y gadwyn gyflenwi
- Byddwn yn annog cynhyrchu pren tanwydd o gynnyrch coedwigoedd sy'n llai tebygol o gael eu gweithgynhyrchu i fod yn gynnyrch hir oes
- O fewn cyfyngderau arfer da a rheoli coedwigoedd cynaliadwy, byddwn yn cynhyrchu biomas ychwanegol trwy gynaeafu brigau, brigiadau a deilliannau o waith coedyddiaeth a gwaith cynnal a chadw. Ni fyddwn yn cynaeafu bonion coed i gynhyrchu biomas oni bai ein bod yn ymgymryd â'r ymarfer am resymau amgylcheddol
- Byddwn yn parhau i gynorthwyo cwsmeriaid biomas presennol, ac yn cynnig ymrwymiad sylfaenol i'r cynllun Busnes Ynni Pren
- Er na fyddwn ni'n gwerthu coed tân yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, byddwn yn marchnata cyfran o bren fel coed tân ar gyfer marchnadoedd domestig trwy rwydwaith o fasnachwyr coed tân

**Nhabl 1: Lefelau Cynllun Marchnata Comisiwn Coedwigaeth Cymru, boncyffion gwerthadwy gan gynnwys prennau caled.**

| '000s m3obs | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cyfaint (gweler nodyn[3]) | 770 | 770 | 770 | 770 | 770 | 770 | 770 |
| Boncyff a Bar Cyfartalog | 430 | 430 | 430 | 430 | 430 | 430 | 430 |

[3] Nid yw'r ffigwr ar gyfer Cyfanswm y Cynhyrchu yn cynnwys defnydd na ellir ei ragweld, fel malurion a phren marw. Lle'r ydym yn gallu marchnata'r defnydd hwn i'w werthu fel biomas, bydd yn ychwanegol at y ffigyrau yn nhabl 1.

[4] FSC yw Forest Stewardship Council www.fsc.org

[5] PEFC yw cynlluniau Programme for the Endorsement of Forest Certification www.pefc.org

[6] CPET yw ymgynghorydd llywodraeth y DU ar gaffael cyflenwadau pren cynaliadwy. www.cpet.org.uk



## Our marketing objectives

Based on these desired outcomes in *Woodlands for Wales*, our marketing objectives in selling timber are;

- **to secure best value from the sale of timber by offering it for sale in a fair, open and transparent way**
- **to offer timber to the market in ways that allow the greatest practicable number of customers to compete for it and in ways that recognise the business needs of our customers and enable them to add the greatest possible value to it**
- **to offer timber in ways that supports investment in the whole supply chain, from harvesting through to processing and which focuses on areas where that supply chain is weaker**
- **to offer timber in ways that encourage its use to best effect to help Wales to reduce its carbon footprint**

## Levels of timber production 2011 - 2016

The FC at Great Britain level publishes a forecast of timber availability for the public forestry Estate and for private woodlands every five years. The next scheduled publication is due in November 2011 in accordance with the Timber Customer Charter. This new forecast will provide an indication of the likely level of timber availability in each country within GB and set the context for our marketing activity in Wales.

In Wales, our timber production level is set in our corporate and business plans. These take account of the overall forecast but also other factors.

Our aim is to bring to market the quantities of timber shown in **Table 1**, and within this, to offer the quantity of log and bar shown.

Depending on market demand, the quantity actually harvested and supplied may be greater or less in any given year.

## Certification

We will continue to sell our timber with dual certification based on the UKWAS. Since 2001 our timber has carried the internationally recognised FSC logo. In 2009 we decided in response to customer requests to extend this to register with PEFC as well. Both these independent certification schemes are widely recognised and are accepted by the UK government's advisors CPET as providing full evidence that the timber carrying them is sourced legally from sustainably managed forests.

## Biomass

The development of biomass markets has provided a welcome demand for low grade woody material providing additional income to woodland owners and scope for woodlands to contribute to the generation of renewable energy. FCW welcomes these opportunities and will continue to support the establishment of the biomass market alongside the elements of the timber processing sector that create timber products which have greater carbon substitution values than wood energy and which undertake greater value adding.

This means that;

- when selling timber at roadside, we will continue to grade out products to suit different markets and encourage the greatest degree of value adding in the supply chain
- we will encourage the production of fuelwood from forest products that are less capable of manufacture into long service life products
- within the limits of good practice and sustainable forest management we will produce additional biomass by harvesting branches, tops and arisings from arboricultural and maintenance work. We will not harvest tree stumps in order to produce biomass unless we are undertaking the operation for environmental reasons
- we will continue to support existing biomass customers, and to offer an underpinning commitment to the Wood Energy Business scheme
- while we will not sell firewood directly to users, we will market a proportion of timber as firewood for domestic markets through a network of firewood merchants

**Table 1: Forestry Commission Wales Marketing Plan Levels, marketable stemwood including hardwoods**

| '000s m3obs | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Total Volume (see note[3]) | 770 | 770 | 770 | 770 | 770 | 770 | 770 |
| Average Log and Bar | 430 | 430 | 430 | 430 | 430 | 430 | 430 |

[3] The figure for Total Production does not include non-forecastable material such as brash and deadwood. Where we are able to market this material for sale as biomass, it will be in addition to the figures in table 1..

[4] FSC is the Forest Stewardship Council www.fsc.org

[5] PEFC is the Programme for the Endorsement of Forest Certification schemes www.pefc.org

[6] CPET is the UK government's adviser on procurement of sustainable timber supplies. www.cpet.org.uk

## Prennau caled

Dangosir ein cynhyrchiad arfaethedig o bren caled yn **Nhabl 2** isod. Byddwn yn cynaeafu o fewn lefel cynhyrchiad cynaliadwy prennau caled ar yr Ystâd. Byddwn yn gweithio i ddod â mwy o haenau prennau caled i mewn i reolaeth gynhyrchiol ar yr Ystâd. Mae pob un o'n cnydau pren caled yn cael eu rheoli heb ddefnyddio cwympglirio. Mae llawer o'r cnwd pren caled yn debygol o fod yn addas ar gyfer cynhyrchu coed tân yn bennaf, fodd bynnag, os fyddwn ni'n gweld coed gwerth uwch mewn cnwd, byddwn yn trafod marchnata'r rhain gyda darpar gwsmeriaid ac efallai yn prynu'r coed hyn yn ôl fel y gellir eu gwerthu wrth ochr y ffordd. Byddwn yn cynnig llawer o deneuon pren caled yn gyffredinol rhwng 200 a 500 tunnell, yn bennaf fel gwerthiannau pren sefydlog yn rheolaidd trwy ein system e-werthu, ac yn parhau i gefnogi Arwerthiant blynyddol Westonbirt. Byddwn yn parhau i geisio datblygu cyfleoedd newydd yn y farchnad ar gyfer y pren caled.

**Nhabl 2: Lefelau Cynllun Marchnata ar gyfer prennau caled**

| '000s m3obs | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynhyrchiad Cyfartalog | 7.5 | 8.7 | 8.7 | 8.7 | 8.7 | 8.7 | 8.7 |

## Dulliau gwerthu

Ein hymagwedd fydd gwerthu pren ar sail gyfanwerthol i'r farchnad. Er mwyn rhoi cyfle i ystod eang o gwsmeriaid posibl brynu pren oddi wrth Ystâd y Cynulliad, byddwn yn parhau i werthu pren yn bennaf ar y farchnad agored trwy ein system e-werthu.

### Pren sy'n sefyll a phren sy'n cael ei werthu ar Ochr y Ffordd

Byddwn yn parhau i werthu cymysgedd o bren sy'n sefyll a gwerthu ar ochr y ffordd gan mai dyma'r ffordd mwyaf effeithiol o hyd i fodloni ein hamcanion. Byddwn yn cadw ein dull gwerthu dan adolygiad ac efallai yn addasu'r symiau a gynigir gan ddefnyddio pob dull fel y bo angen er mwyn sicrhau y bodlonir ein hamcan ehangach. Rydym ni'n disgwyl y gall cyfran y pren a werthir trwy bob dull amrywio rhwng 40% a 60% o ganlyniad i'r adolygiad hwn. Byddwn yn osgoi gwneud newidiadau dramatig i'r symiau a werthir trwy bob dull o un flwyddyn i'r nesaf. Byddwn yn cadarnhau'r symiau blynyddol pan fyddwn yn cyhoeddi ein cynllun gwerthu blynyddol ac yn rhoi o leiaf 12 mis o rybudd ynglŷn ag unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

### Digwyddiadau gwerthu

Ym mis Ionawr bob blwyddyn, byddwn yn cyhoeddi ein cynllun gwerthu manwl a fydd yn nodi'r cyfanswm bras fydd yn cael ei gynnig ym mhob gwerthiant, wedi'i rannu rhwng gwerthiant pren sy'n sefyll a gwerthiant ar ochr y ffordd.

Rydym ni ar hyn o bryd yn cynnig chwech e-werthiant y flwyddyn ac yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnig isafswm o bedwar o werthiannau felly dros gyfnod y strategaeth farchnata hon. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cael eu cynnig ar sail cynigion tender seliedig; fodd bynnag, rydym yn cadw'r dewis i gynnal arwerthiannau electronig a byddwn yn ystyried gwneud hynny lle mae lefel y diddordeb a chystadleuaeth yn ddigonol i'w wneud yn ddichonadwy yn fasnachol.

### Cytundebau tymor byr

Mae ein tendrau electronig yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i barfïon sydd â diddordeb mewn prynu pren oddi wrthym gael cyflenwad. Dyfernir y cytundebau hyn ar sail pris a'r gallu i weithio'r cytundeb yn yr amser penodol ac i'r safon ansawdd sy'n ofynnol.

### Cytundebau tymor hir


Byddwn yn parhau i gynnig cyfres o gytundebau tymor hir ar gyfer cyflenwad pren. Bydd union gyfran y rhain yn amrywio yn unol â'n hangen i gyflwyno'r amcanion a nodir uchod. Rydym yn rhagweld y bydd y gyfran rhwng 40% a 60%. Wrth i gytundebau presennol gael eu cyflawni, byddwn yn pennu p'un ai oes angen cynnig cytundebau newydd. Fel yr uchod, byddwn yn osgoi gwneud unrhyw newidiadau dramatig blwyddyn ar ôl blwyddyn a byddwn yn rhoi o leiaf 12 mis o rybudd ynglŷn â newidiadau arwyddocaol arfaethedig. Pan fydd cytundebau newydd yn cael eu cynnig, bydd hyn yn cael ei wneud trwy ddefnyddio cystadleuaeth agored ar y dechrau. Byddwn yn seilio'r meini prawf ar gyfer cytundeb tymor hir ar ein hamcanion ehangach a nodir uchod; fodd bynnag, gall fod ffocws craffach ar gyfleoedd am gytundebau unigol. Ar gyfer cytundebau Gwerthiant Pren sy'n Sefyll, mae'r meini prawf yn debygol o fod yn gysylltiedig â'n nodau rheoli coetiroedd ac â chynorthwyo i ddatblygu'r gweithlu contractio, er enghraifft;

- sefydlu adnoddau contractwr digonol i weithio ein rhaglen arfaethedig o gynaeafu tir serth a deneuo coed
- cynorthwyo i ddatblygu mentrau cymunedol newydd, gan ddefnyddio symiau bach o bren yn gyffredinol

Ar gyfer Cytundebau Ochr y Ffordd, mae'r meini prawf yn debygol o ganolbwyntio ar

- annog buddsoddiad yn y sector prosesu mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo ychwanegu gwerth a / neu leihau allyriadau carbon.
- cynorthwyo buddsoddiad ble y bydd hyn yn helpu pren o Gymru i gael mynediad i farchnadoedd arbenigol gwerth uwch.
- cynorthwyo buddsoddiad mewn prosesu pren mewn marchnadoedd lle mae galw cyfyngedig am ddefnydd sydd ar gael

**Ffigur 1**



## Hardwoods

Our planned production of hardwood timber is shown in **Table 2** below. We will harvest within the sustainable production level of hardwoods on the Estate. We will work to bring more hardwood stands into productive management on the Estate. All of our hardwood crops are managed without use of clearfell. Much of the hardwood crop is likely to be suitable mainly for firewood production, however where we identify higher value trees in a crop we will discuss the marketing of these with prospective customers and may buy back these trees so that they can be offered for sale at roadside. We will offer lots of hardwood thinnings generally between 200 and 500 tonnes, mainly as standing sales on a regular basis through our e-sales system, and continue to support the annual Westonbirt Auction. We will continue to seek to develop new market opportunities for the hardwood timber.

**Table 2: Marketing Plan levels for hardwood timber**

| '000s m3obs | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Average Production | 7.5 | 8.7 | 8.7 | 8.7 | 8.7 | 8.7 | 8.7 |

## Methods of sale

Our approach will be to sell timber on a wholesale basis to the market. In order to provide a wide range of potential customers with the opportunity to buy timber from the Estate, we will continue to sell timber mainly on the open market through our e-sales system. Figure 1 shows our main methods of sale.

### Standing and Roadside Timber

We will maintain a mix of standing and roadside sales as this remains the most effective way to meet our objectives. We will keep our method of sale under review and may adjust the quantities being offered using each method as necessary to ensure our wider objective is met. We expect that the proportion of timber sold by each method may vary between 40% and 60% as a result of this review. We will avoid making dramatic changes to the quantity sold through each method from one year to the next. We will confirm the annual quantities when we publish our annual sales plan and give at least 12 months notice of any future changes.

### Sale events

In January each year we will publish our detailed sales plan which will set out the approximate quantity to be offered in each sale, broken down between standing and roadside sale.

We currently offer six e-sales each year and remain committed to offering a minimum of four such sales for the duration of this marketing strategy. At present these are offered on the basis of sealed bid tenders, however we retain the option to hold electronic auctions and will give consideration to doing so where the level of interest and competition is sufficient to make this commercially viable.

### Short term contracts

Our electronic tenders give regular opportunities for all parties interested in buying timber from us to obtain supply. These contracts are awarded on the basis of price and the ability to work the contract in the specified timescales and to the required quality standard.

### Long term contracts


We will continue to offer a suite of long term contracts for supply of timber. The exact proportion of these will vary according to our need to deliver the objectives set out above. We anticipate the proportion being in the range 40% to 60%. As existing contracts are completed, we will determine whether there is a need to offer new contracts. As above we will avoid making dramatic changes year on year and will give at least 12 months notice of significant planned changes. When new contracts are offered, this will be done using open competition at the start point. We will base the criteria for long term contracts on our wider objectives described above; however individual contract opportunities may have a narrower focus. For Standing Sale contracts, the criteria are likely to be linked to our woodland management aims and to supporting the development of the contractor workforce, for example;

- to establish adequate contractor resources to work our planned programme for thinning and steep ground harvesting
- to support development of new community enterprises, generally using small quantities of timber

For Roadside Contracts, the criteria are likely to focus on;

- encouraging investment in the processing sector in ways that promote value adding and / or minimize carbon emissions
- supporting investment in timber processing in markets where there is limited demand for available material of there is an opportunity to access higher value niche markets

**Figure 1**





## Gwasanaeth Cwsmeriaid

**Siarter Cwsmeriaid Pren**

Cytunir ar y Siarter Cwsmeriaid Pren gan y CC yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac mae'n nodi ein hymrwymiadau i'n cwsmeriaid. Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn bodloni'r ymrwymiadau hyn sydd ar ein gwefan. Bydd y mynegeion a'r wybodaeth am werthiant y cyfeirir atynt yn y Siarter yn parhau i gael eu cyhoeddi.

Bydd gwybodaeth am gynhyrchiad a gwerthiant ar gael yn flynyddol trwy ein gwefan, ac yn ein cyfarfod blynyddol i gyfarfod â chwsmeriaid. Byddwn yn sicrhau bod manylion ynglŷn â chynigwyr llwyddiannus ar gael yn ein digwyddiadau gwerthu electronig. Byddwn yn cyhoeddi cynllun gwerthu blynyddol a fydd yn rhoi manylion ynglŷn â chyfansymiau a rhywogaethau arfaethedig a chynnwys boncyffion disgwyliedig fydd yn cael eu rhoi yn y farchnad yn y flwyddyn ariannol sydd ar ddod. Byddwn yn cynnwys gwybodaeth am y cyfanswm i'w gynnig ar ochr y ffordd neu fel pren sy'n sefyll. Byddwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â nifer y digwyddiadau gwerthu sydd wedi cael eu trefnu. Ein nod fydd sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'w thrafod ym mis Ionawr bob blwyddyn yn barod ar gyfer y cyfarfod cysylltu â chwsmeriaid.

Gall hyd y cytundebau tymor hir amrywio; yn gyffredinol, byddant yn para o leiaf bum mlynedd, ond gallant fod yn hwy. Bydd hyd y cytundeb wedi'i gysylltu â'r amcanion rydym ni'n ceisio eu cyflawni a'r buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cyflwyno'r amcan hwnnw. Er mwyn sicrhau gweinyddiad effeithiol, bydd gofyn i gwsmeriaid sy'n derbyn Cytundebau Tymor Hir gennym ni ddefnyddio cyfnewidfa ddata electronig yn safonol.

**Ymagweddau eraill at werthu pren**

Byddwn yn adolygu ein hymagwedd at werthiant pren yn rheolaidd. O fewn egwyddorion gwerthu mewn modd teg, agored a thryloyw, byddwn yn ystyried p'un ai oes gan wahanol ymagweddau y potensial i gynnig gwerth gwell neu gyflwyno ein hamcanion yn well.

**Gwerthiannau trwy drafodaeth i farchnadoedd arbenigol**

Mae'r rhaglen gynaeafu weithiau'n cynhyrchu symiau bach o rywogaethau llai neu bren o ddimensiynau annormal sydd yn aml yn methu â denu pris da pan gânt eu gwerthu gyda phren arall mewn cystadleuaeth agored. Lle nad yw dulliau eraill o werthu yn debygol o lwyddo i gael y gwerth gorau, efallai y gwerthwn y mathau hyn o bren trwy drafodaeth. Bydd cyfanswm blynyddol y math o ddefnydd a werthir trwy drafodaeth yn gyffredinol yn llai na 5,000 tunnell. Bydd gwerth pob trafodyn yn gyfyngedig i £5,000.



**Gwasanaeth Cwsmeriaid**

Bydd pob un o'n cwsmeriaid yn cael cynnig y lefel warantedig ganlynol o gymorth i gwsmeriaid.

- Rheolwr cwsmeriaid enwebedig
- Ymweliad ag eiddo'r cwsmer o leiaf unwaith y flwyddyn
- Bydd cwsmeriaid sy'n prynu symiau mwy neu sydd ag anghenion arbennig yn cael cynnig ymweliadau ychwanegol
- Byddwn yn sicrhau bod ein staff yn parhau'n hyfforddedig a gwybodus am y farchnad bren a'u bod nhw'n gallu deall gofynion a dyheadau ein cwsmeriaid. Bydd cwsmeriaid yn rhan o'r broses hon a byddant yn cael eu gwahodd i roi adborth am ein perfformiad

Bydd y Swyddog Cynaeafu a Marchnata, a Phennaeth Rheoli'r Ystâd ar gyfer Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda CONFOR ac UKFPA.



The duration of long term contracts may vary, they will generally be at least five years in duration, but may be longer. The duration of the contract will be linked to the objectives we are seeking to achieve and to the investment needed in order to deliver that objective. In order to ensure efficient administration, customers entering into Long Term Contracts with us will be required to use electronic data exchange as standard.

### Other approaches to sale of timber

We will keep our approach to timber sales under regular review. Within the principles of selling in a fair, open and transparent manner we will consider whether different approaches have potential to offer better value or to better deliver our objectives.

### Negotiated sales to niche markets

The harvesting programme sometimes generates small amounts of minor species or timber of abnormal dimensions that often fail to attract a good price when sold together in with other timber in an open competition. Where other methods of sale are not likely to achieve best value, we may sell this kind of timber by negotiation. The total annual quantity of type of material sold by negotiation will generally be less than 5000 tonnes. The value of each individual transaction will be limited to £5,000.

## Customer Service

### Timber Customer Charter

The Timber Customer Charter is agreed by the FC in Wales, England and Scotland and sets out our commitments to our customers. Forestry Commission Wales will meet these commitments which are set out on our website. The indices and sales information referred to in the Charter will continue to be published.

Production and sales information will be made available annually via our website and at our annual customer liaison meeting. We will make available details of winning bidders at our electronic sales events. We will publish an annual sales plan giving details of planned volumes, species, and expected saw log content to be brought to market in the coming financial year. We will include information about the volume to be offered at roadside or as standing timber. We will also include information about the number of sales events planned. We will aim to make this information available for discussion in January each year in time for the customer liaison meeting.

### Customer Service

Each of our customers will be offered the following guaranteed level of customer support.

- a nominated customer manager
- a visit to the customers premises at least once each year
- customers who buy larger volumes or who have particular needs will be offered additional visits
- we will ensure that our staff remain trained and knowledgeable about the timber market and able to understand the requirements and aspirations of our customers. Customers will be involved in this process and will be invited to give feedback on our performance

The Harvesting and Marketing Officer and Head of Estate Management for Forestry Commission Wales will have regular meetings with CONFOR and UKFPA.



**Diogelwch safleoedd**

Rydym yn cydnabod bod problemau diogelwch wedi bod yn rhwystr i gwsmeriaid rhag prynu pren mewn rhai rhannau o Gymru. Mae CCC mewn sefyllfa dda i arwain mewn meysydd trafferthus fel hyn, i helpu amddiffyn bywoliaeth contractwyr a chwsmeriaid sy'n gweithio ar yr Ystâd, sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001. Rydym wedi defnyddio gwasanaethau contractwr diogelwch a fydd yn darparu gwasanaeth mewn ardaloedd lle mae profiad wedi dangos bod y broblem hon yn debygol o godi. Bydd hyn yn galluogi'r contractwr sy'n cyflenwi diogelwch i ddatblygu dealltwriaeth well o anghenion y diwydiant coedwigaeth yng Nghymru. Byddwn yn adolygu lefel y diogelwch yn ystod y gwaith cynaeafu a bydd ein contractwr diogelwch yn cadw cysylltiad agos â'n cwsmeriaid. Byddwn yn gwerthuso'r profiad a'r cynnydd a wnaed trwy'r ymagwedd hon a byddwn yn ymgynghori â'r diwydiant coedwigaeth wrth ystyried y dewisiadau y tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd gychwynnol hwn.

**Ymdrin â digwyddiadau na ellir eu rhagweld**

Rydym yn cydnabod yr effaith y gall digwyddiadau na ellir eu rhagweld, fel tywydd, clefyd neu ffactorau eraill, ei chael ar ein cwsmeriaid. Ein blaenoriaeth ym mhob achos o'r fath fydd hysbysu ein cwsmeriaid. Byddwn yn gwneud hyn trwy gadw cysylltiad agos ag UKFPA a CONFOR a thrwy ein gwefan, a thrwy gysylltu â'n cwsmeriaid yn uniongyrchol, lle bo'n bosibl. Byddwn hefyd yn defnyddio datganiadau i'r wasg a dulliau eraill o gyfathrebu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir a pherthnasol ar gael.

Pa le bynnag posibl, ein bwriad fydd ymdrin ag effeithiau digwyddiadau felly er mwyn lleihau eu heffaith ar ein cwsmeriaid. Gallwn benderfynu trafod gwerthu pren â chwsmeriaid sy'n gallu ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau annisgwyl mewn amgylchiadau eithriadol yn unig

**Achosion o glefydau yn effeithio ar goed, fel yr achosion o *Phytophera ramorum* mewn llarwydd yn 2009/10.**

- lle mae angen cwympo coed er mwyn glanweithdra, byddwn yn cyflawni hyn mor effeithiol â phosibl a'r nod fydd sicrhau bod y pren ar gael i gwsmeriaid ei brynu, os dymunant wneud hynny




- byddwn yn ceisio bodloni telerau'r cytundebau pren presennol er mwyn lleihau'r angen i gymal force majeur ddod i rym
- byddwn yn lleihau'r effaith ar gynhyrchiad pren yn y dyfodol trwy newid y pren o gwympo coed oherwydd glanweithdra ar gyfer cynhyrchiad pren arfaethedig
- byddwn yn gwahodd y rheiny sydd â chytundebau tymor hir i newid symiau pren sydd yn y cytundeb am bren o gwympo coed oherwydd glanweithdra, a byddwn yn cynnwys amod mewn cytundebau yn y dyfodol sy'n gofyn i gwsmeriaid dderbyn elfen o newid felly



**Tywydd garw**

- byddwn yn hysbysu cwsmeriaid ynglŷn â'n cynlluniau i ymdrin â thywydd garw wrth iddo ddigwydd
- ein nod fydd lleihau'r effaith ar ein rhaglen ac isadeiledd, ac ar fusnesau ein cwsmeriaid trwy newid pren mewn cytundebau presennol ac adolygu ein cynllun gwerthu i ystyried effeithiau'r digwyddiad

**Datblygiadau ffermydd gwynt**

Mae chwech o ddatblygiadau ffermydd gwynt ar raddfa fawr i fod i ddigwydd ar yr Ystâd dros gyfnod y strategaeth farchnata hon. Ceir manylion llawn am y rhain ar ein gwefan. Bydd gofyn cwympo coed er mwyn caniatáu i dyrbinau ac isadeileddau eraill gael eu gosod a CCC fydd yn gyfrifol am drefnu'r cwympo coed hyn. Ein nod fydd cynnal ein rhaglen gynaeafu genedlaethol yn ystod adeiladu'r ffermydd gwynt hyn. Er bod amseriadau cywir yn ansicr, byddwn yn gweithio gyda'n cwsmeriaid pren i leihau effaith y gweithgaredd hwn arnynt. Fodd bynnag, gall fod ychydig o amrywiad lleol mewn lefelau cynhyrchu pren ac mewn argaeledd lleol rhai rhywogaethau penodol neu gategorïau cynnyrch.

Bydd y mwyafrif o'r pren a gynhyrchir o ganlyniad i ddatblygiadau'r ffermydd gwynt yn cael ei ardystio gan FSC, fel y mae ar hyn o bryd. Ni ellir ardystio swm bach o'r pren yn gynaliadwy o dan UKWAS, sef y pren a gynaeafir o safleoedd isadeiledd parhaol ffermydd gwynt, fel gwaelod tyrau tyrbin ac is-orsafoedd. Bydd y pren hwn (neu swm cyfwerth) yn cael ei farchnata ar wahân ac yn cael ei nodi'n eglur ym manylion y gwerthiant pan fydd hyn yn digwydd.



### Site security

We recognise that security problems have been a barrier to customers purchasing timber in some parts of Wales. FC Wales is committed to addressing this problem in order, to help protect the safety and livelihood of contractors and customers working on the Estate, and to ensure compliance with the Private Security Industry Act 2001. We have engaged the services of a security contractor who will provide a service in areas where experience has shown this problem is likely to arise. This will enable the security supplier contractor base to develop a better understanding of the needs of the forest industry in Wales. We will keep the level of security cover under review during the harvesting work and our security contractor will liaise closely with customers. We will evaluate the experience and progress made through this approach and will consult the forest industry when considering the options beyond this initial 3 year period.

### Dealing with unforeseen events

We recognise the impact that unforeseen events such as weather, disease outbreak and other factors can have on our customers. Our priority in all such cases will be to keep our customers informed. We will do this by close liaison with the UKFPA and CONFOR and through our website and by contacting customers directly where possible. We will also use press releases and other means of communication to ensure that accurate and relevant information is available.

Wherever possible we will aim to deal with the impacts of such events so as to minimise their impact on customers. In exceptional circumstances only we may decide to negotiate the sale of timber to customers who are able to respond quickly to unexpected events.

### Outbreak of disease affecting trees, such as the 2009/10 outbreak of *Phytophora ramorum* in larch.

- where sanitation fellings are necessary we will carry these out as efficiently as possible and aim to make the timber available for customers to purchase if they wish to do so
- we will try to meet the terms of existing timber contracts in order to minimize the need to invoke the *force majeure* clause
- we will minimise the impact on future timber production by substituting the timber from sanitation fellings for planned timber production
- we will invite long term contract holders to substitute contracted timber volumes with timber from sanitation fellings and will include a condition in future contracts that requires customers to accept an element of such substitution

### Severe weather events

- we will keep customers informed about our plans to deal with severe weather events when they occur
- we will aim to minimise the impact on our programme and infrastructure, and on our customers businesses through substituting timber in existing contracts and revising our sales plan to take account of the impacts of the event

### Wind farm developments

Six large scale wind farm developments are planned to take place on the Estate over the period of this marketing strategy. Full details of these can be found on our website. Tree felling will be required to allow turbines and other infrastructure to be installed and FC Wales will be responsible for organising this felling. We will aim to maintain our national harvesting programme during the construction of these wind farms. While exact timings are uncertain, we will work with our timber customers to minimise the impact of this activity on them. However there may be some local fluctuation in timber production levels and in the local availability of particular species or product categories.

The majority of the timber produced as a result of wind farm developments will be FSC certified as at present. A small quantity of the timber harvested from the sites of permanent wind farm infrastructure, such as turbine tower bases and sub stations, cannot be certified as sustainable under UKWAS. This timber (or an equivalent quantity) will be marketed separately and clearly identified in the sale details when this happens.



Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat arall, er enghraifft mewn print bras neu mewn iaith arall, cysylltwch â:

The Diversity Team
Forestry Commission
Silvan House
231 Corstorphine Road
EDINBURGH
EH12 7AT

**Ffôn:** 0131 314 6575
**E-bost:** diversity@forestry.gsi.gov.uk

If you need this publication in an alternative format, for example, in large print or in another language, please contact:

The Diversity Team
Forestry Commission
Silvan House
231 Corstorphine Road
Edinburgh
EH12 7AT

**Tel:** 0131 314 6575
**E-mail:** diversity@forestry.gsi.gov.uk

# Strategaeth Marchnata Pren

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR

Ffôn: 0300 068 0300
www.forestry.gov.uk/cymru

# Timber Marketing Strategy

Forestry Commission Wales
Welsh Assembly Government
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR

Tel: 0300 068 0300
www.forestry.gov.uk/wales

Mae coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth wedi cael eu hardystio yn unol â rheolau Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd SGS-FM/COC-000358
© 1996 Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd AC

Forestry Commission woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council SGS-FM/COC-000358
© 1996 Forest Stewardship Council AC

Argraffwyd y ddogfen hon ar Revive 50:50 Offset, papur wedi'i ailgylchu a gynhyrchir drwy ddefnyddio 50% o wastraff adferedig a 50% ffibr pren gwyryf. FSC SGS-COC-0912

Printed on Revive 50:50 Offset a recycled paper containing 50% recovered waste and 50% virgin fibre. FSC SGS-COC-0912

Mae pob delwedd yn Ⓗ Hawlfraint y Goron o Lyfrgell Lluniau Comisiwn Coedwigaeth Cymru oni nodir yn wahanol

All images are © Crown Copyright from the Forestry Commission Picture Library unless otherwise stated

FCFC304/FCW-FBA/DWJ-500/ION11
ISBN: 978-0-85538-823-2

FCFC304/FCW-FBA/DWJ-500/JAN11
ISBN: 978-0-85538-823-2

dylunio / design: www.fbagroup.co.uk FCW56 01/11